

**DATGANIADAU EFFAITH AR Y
GYMUNED A'U DEFNYDD MEWN
TROSEDDAU ATGASEDD**

CANLLAWIAU I ERLYNWYR



Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Beth yw Datganiad Effaith ar y Gymuned (CIS)?.....	3
Pam dylid defnyddio CIS mewn achosion o Droseddau Atgasedd?.....	3
Pryd dylid defnyddio CIS mewn achosion o droseddau atgasedd?	4
Beth a olygir gan 'gymuned'?.....	4
Pwy sy'n gyfriol am gasglu CIS?.....	5
Beth ddylai ei gynnwys?.....	5
Mewnbwn ac adborth cymunedol.....	5
Beth yw swyddogaeth GEG?	6
Enghreifftiau	6

Cyflwyniad

Gall Datganiadau Effaith ar y Gymuned (CIS) helpu asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddeall effaith ehangach troseddau atgasedd a gwella penderfyniadau a wneir a chynyddu hyder y cyhoedd.

Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu yn benodol y defnydd o CIS mewn achosion o Droseddau Atgasedd. Dylid eu darllen ochr yn ochr â'r canllawiau cyfreithiol a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder y gellir dod o hyd iddynt ar wefan GEG (CPS). Mae canllawiau ar wahân ar gyfer [oedolion](#) a [phobl ifanc](#).

Beth yw Datganiad Effaith ar y Gymuned (CIS)?

Datganiad adran 9 yw CIS sy'n disgrifio effaith troseddu ar gymuned, yn darparu cyd-destun ac **ynrhoi llais i'r gymuned yn y** broses gyfiawnder troseddol. Gellir defnyddio CIS trwy gydol y system gyfiawnder troseddol i hysbysu:

- penderfyniadau cyhuddo
- prawf lles y cyhoedd
- penderfyniadau dedfrydu
- canlyniadau tu allan i'r llys a chyfiawnder adferol.

Mae dau fath o ddatganiad effaith ar y gymuned: cyffredinol a phenodol.

- Mae datganiadau cyffredinol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ystod o droseddau a digwyddiadau ymddygiad gwrth-gymdeithasol a nodwyd gan y gymuned berthnasol fel testun pryder. Gall yr un datganiad cyffredinol fod ynghlwm wrth nifer o achosion.
- Gall datganiadau penodol gyfeirio at drosedd benodol neu ddigwyddiad ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Bydd y datganiad penodol yn esbonio'r effaith ar a'r niwed i'r gymuned sydd yn deillio o'r drosedd/digwyddiad, a gellir ei ddefnyddio i achos yn ymwneud â'r drosedd a nodwyd.

Dylid cyflwyno CIS ar bob parti fel rhan o achos yr erlyniad.

Pam dylid defnyddio CIS mewn achosion o Droseddau Atgasedd?

Mae gan droseddau atgasedd effaith anghymesur ar y dioddefwr gan eu bod yn cael eu targedu oherwydd nodwedd bersonol, p'un ai eu hanabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth trawsryweddol. Gall yr ofn a'r diffyg diogelwch a deimlir gan ddioddefwyr troseddau atgasedd gael effaith pell-gyrhaeddol ar y gymuned ehangach, gan danseilio hyder a diogelwch pobl. Mae'r defnydd o CIS yn caniatáu i fynychter ac effaith y troseddau hyn gael eu deall yn llwyr a'u cymryd i ystyriaeth mewn achosion o droseddau atgasedd addas.

Gellir defnyddio CIS penodol a chyffredinol mewn achosion o droseddau atgasedd. Er enghraifft, os yw cymuned yn cael ei thargedu'n rheolaidd, gall yr heddlu baratoi CIS i'w ddefnyddio ymhob enghraifft o'r troseddau hyn. Yn yr un modd, os yw trosedd atgasedd yn anfon sioc fel ton o gwmpas cymuned benodol, gall CIS ddal effaith y digwyddiad arbennig hwn.

[Dylid hefyd ystyried Datganiadu Personol Dioddefwr \(VPS\)](#) mewn perthynas â throseddau atgasedd i gyflwyno i'r llys yr effaith benodol mae'r elyniaeth wedi ei chael ar y dioddefwr. Ni ddylid defnyddio CIS yn lle VPS.

Pryd dylid defnyddio CIS mewn achosion o droseddau atgasedd?

Dylid defnyddio CIS i ddangos **mynychter** a/neu **effaith**.

Mynychter

Mae canllawiau cyfreithiol y WG, cyfraith achos a chanllawiau dedfrydu yn ei gwneud yn glir, oni bo CIS yn medru dangos bod math penodol o droseddu yn sylweddol uwch mewn ardal neu gymuned benodol nag yw yn genedlaethol, ni fedr y llys roi dedfryd lymach ar sail mynychter.

Mae hyn yn golygu y dylai CIS ddangos bod yna **probleml leol neu gymunedol benodol** er mwyn i'r troseddu gael ei drin yn fwy difrifol nag y byddai unrhyw le arall.

Effaith

Mae troseddau atgasedd yn cael eu tan-adrodd felly efallai nad yw ystadegau ar fynychter troseddau atgasedd mewn cymuned benodol yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd. Er mwyn sicrhau bod y CIS yn disgrifio'r niwed i'r gymuned yn gywir ac effeithiol, dylai'r datganiad, ar y cyd â data perthnasol ar fynychter, gynnwys gwybodaeth sy'n pwysleisio effaith y drosedd neu'r math o drosedd ar y gymuned.

Ni fydd CIS yn briodol ym mhob achos o droseddau atgasedd. Fodd bynnag mae achosion pan fydd CIS yn debyg o fod yn arbennig o werthfawr yn cynnwys:

- achosion difrifol a phroffil uchel sydd wedi denu sylw'r cyfryngau
- achosion lle mae'r ymosodiad ar gymuned yn hytrach nag ar un dioddefwr neu ddi-doddefwyr a nodwyd e.e. halogi addoldy neu fynwent; gelyniaeth ar-lein tuag at bobl ar sail anabled, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth trawsryweddol.
- cymuned sy'n cael ei thargedu'n arbennig neu'n gyson mewn ardal neu gymdogaeth.
- cymuned sy'n destun targedu helaeth o ganlyniad i ddigwyddiadau cenedlaethol neu ryngwladol.
- cymuned sy'n wynbeu targedu cyson ond sy'n llai adnabyddus ac felly gall CIS brofi'n arbennig o ddefnyddiol neu'n ddadlennol i'r heddlu, GEG (CPS) a'r llysoedd.

Beth a olygir gan 'gymuned'?

Mae canllawiau'r WG yn diffinio cymuned fel grŵp o bobl sydd yn rhyngweithio ac yn rhannu nodweddion, profiadau neu gefndiroedd penodol a/neu sydd wedi eu lleoli'n agos at ei gilydd. Gall achosion o droseddau atgasedd fenthyg eu hunain i ddefnydd o CIS oherwydd **'cymuned o hunaniaeth'** sydd yn rhannu nodweddion personol y dioddefwr. A gall CIS berthyn i dargedu adeilad neu sefydliadau a ddefnyddir gan gymuned er enghraifft addoldy neu ganolfan ddydd a ddefnyddir gan bobl ag anawsterau dysgu.

Troseddau atgasedd ar-lein

Gellir defnyddio CIS i ddangos effaith troseddau atgasedd ar-lein ar gymunedau. Fel gyda phob trosedd atgasedd, bydd yr heddlu yn ceisio cael penderfyniad cyhuddo oddi wrth GEG. Pan fydd erlynwyr yn ystyried troseddau atgasedd a gyflawnwyd ar-lein, dylent gyfeirio at [Guidelines on Prosecuting Cases Involving Communications Sent via Social Media](#)GEG. Mae'r canllawiau hyn yn egluro pa droseddau sydd angen eu cyfeirio at Gyngogydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr er mwyn iddynt awdurdodi cyhuddiad.

Gall grwpiau cenedlaethol a lleol ac elusennau ddarparu gwybodaeth ar gyfer CIS cyffredinol mewn perthynas ag effaith troseddu ar-lein ar y cymunedau maent yn eu cynrychioli. Mae rhai wedi cyhoeddi ymchwil ac adroddiadau yn y maes hwn a all fod yn ddefnyddiol i'r sawl sydd yn casglu CIS ar gyfer troseddu ar-lein.

Os ydych yn ystyried defnyddio CIS mewn achos o drosedd atgasedd lle defnyddir cyfryngau cymdeithasol, dylech roi gwybod i dîm polisi GEG ar: HateCrime.policy@cps.gov.uk

Pwy sy'n gyfriol am gasglu CIS?

Yr Heddlu sy'n gyfrifol am gasglu'r wybodaeth a phryderon y gymuned i ddatganiad tyst adran 9. Dylai'r awdur sicrhau y gallai cynnwys cyffredinol y datganiad fod yn dderbyniol yn y llys. Unwaith y mae'r swyddog wedi casglu'r datganiad, dylent ei lofnodi a'i osod yn ffeil yr erlyniad. Mae canllawiau'r WG yn datgan na ddylai gradd yr awdur fod yn is nag Arolygydd Heddlu a dylid rhoi ystyriaeth i swyddog uwch ei radd yn llofnodi'r CIS at ddibenion rheoli ansawdd.

Gall erlynydd sydd yn ystyried ceisio am CIS gan yr heddlu chwilio am ganllawiau pellach a chynghor gan Gydlynnydd Troseddau Atgasedd yr Ardal.

Beth ddylai ei gynnwys?

Dylai'r datganiad ddangos, mor fanwl â phosibl, effaith lawn y niwed sydd wedi ei achosi gan y drosedd atgasedd.

Dylai:

- Gael ei ysgrifennu o safbwynt annibynnol a gwrthychol
- Sicrhau y gallai cynnwys y datganiad fod yn dderbyniol yn y llys.
- Gynnwys, lle mae ar gael, data ystadegol yn disgrifio mynychter y mathau hyn o ddigwyddiad(au).

Ni ddylai:

- Gynnwys barn bersonol yr awdur a rhaid iddo fod yn unol â'r polisi cyfredol ar gydraddoleb ac amrywiaeth.
- Gyfeirio at droseddwr unigol a enwyd
- Gynnwys enwau unigol cyfranwyr cymunedol.

Mewnbyn ac adborth cymunedol

Bydd heddlu lleol ac Ardaloedd GEG wedi sefydlu cysylltiadau troseddau atgasedd o fewn rhychwant eang o gymunedau a all gyfrannu i CIS.

Mae'n bwysig bod yr heddlu yn egluro i'r gymuned berthansol pam maent yn cymryd datganiad a pha effaith y gall gael ac mae wedi ei gael ar y broses cyfiawnder cyfreithiol.

Dylid nodi hyn:

- Ni ellir defnyddio CIS i benderfynu dieuogrwydd neu euogrwydd
- Mae'r farnwriaeth yn annibynnol ac mae ganddynt ddisgresiwn barnwrol pan yn dedfrydu
- Mae'r CIS yn un o nifer o ffactorau a ystyrir gan y llys wrth ddedfrydu
- Ni ddylid disgwyl bod bodolaeth, a'r defnydd, o CIS yn golygu bod y diffynnydd yn derbyn dedfryd lymach.

Ymhob erlyniad trosedd atgasedd lwyddiannus, bydd gan y cymunedau ddiddordeb clywed a gyhoeddwyd a chofnodwyd cynnydd yn y ddedfryd.

Beth yw swyddogaeth GEG?

- Gall GEG ofyn i'r heddlu ymorol am CIS fel rhan o gyngor cyn-dedfrydu a chynlluniau gweithredu.
- Rhaid i droseddau atgasedd gael eu cyfeirio wrth yr Heddlu i GEG ar gyfer penderfyniad dedfrydu. Gall CIS fod yn ddefnyddiol wrth ystyried cam lles y cyhoedd o'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.
- Gellir defnyddio CIS i benderfynu'r amodau addas ar gyfer rhybuddion amodol. Ond mewn achosion o droseddau atgasedd, bydd rhybuddion amodol yn briodol mewn amgylchiadau neilltuol yn unig. Mae gofyniad i gyfeirio achosion o droseddau atgasedd i [Bencadlys GEG](#) lle mae rhybuddiad amodol dan ystyriaeth.
- Dylid cyflwyno CIS ar bob parti fel rhan o achos yr erlyniad.
- Ar euogfarnu, a chyn dedfrydu, dylai GEG dynnu sylw'r Llys at y CIS ac effaith y drosedd atgasedd ar y gymuned.

Enghreifftiau

Mae canllawiau cyfreithiol cyfredol y WG yn darparu templedi ar gyfer [CIS](#) cyffredinol a [phenodol](#). Dylid defnyddio'r rhain pan yn creu CIS ar gyfer achosion o droseddau atgasedd.